**EITEM AR YR AGENDA: 19**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21 Mawrth 2016**

## DATHLIAD UGAIN MLYNEDD ERS SEFYDLU AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**Adroddiad gan Simon Smith, Prif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Hysbysu'r Aelodau y bydd yr Awdurdod yn nodi ugeinfed pen-blwydd yr Awdurdod yng nghyfarfod blynyddol yr Awdurdod ym Mehefin 2016.

## Cefndir

2 Sefydlwyd Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar 1 Ebrill 1996 pan ddaeth darpariaethau Gorchymyn Gwasanaethau Tân Gogledd Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995 (y Gorchymyn) i rym. Roedd y Gorchymyn yn darparu, wrth ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru, i'r gwasanaethau tân oedd yn gwasanaethau hen siroedd Clwyd a Gwynedd gael eu huno, a bod y chwe awdurdod unedol newydd yng Ngogledd Cymru yn uno er mwyn darparu "gwasanaeth tân". Yr enw a fyddai ar yr Awdurdod i'w sefydlu dan y Gorchymyn fyddai "Awdurdod Tân Gogledd Cymru". Er na ddaeth yr Awdurdod ei hun yn gwbl weithredol tan 1 Ebrill 1996, bu Cyd-Bwyllgor Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru ac yna awdurdod cysgodol, yn cwrdd am fisoedd cyn hynny i wneud y gwaith cynllunio a dechreuol angenrheidiol ac i oruchwylio troi dau awdurdod a gwasanaeth yn un.

3 Yn dilyn cyflwyno Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yng Nghymru, i newid enw'r Gwasanaeth o Wasanaeth Tân i Wasanaeth Tân ac Achub, nid oedd mesurau tebyg yn eu lle i newid Gorchymyn Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru 1995 (Cynllun Cyfuno) i adlewyrchu newid enw'r Awdurdod. Ni wnaed darpariaethau eraill i gydnabod y newid yma'n gyfreithiol. Felly, er bod yr Awdurdod yn tueddu i alw ei hun yn 'Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru', er dibenion swyddogol/cyfreithiol, enw cywir yr Awdurdod yn swyddogol/cyfreithiol yw 'Awdurdod Tân Gogledd Cymru'. Oherwydd hyn, rhaid i bob dogfennaeth gyfreithiol gael yr enw hwn.

## Gwybodaeth

4 Ebrill 2006 fydd ugeinfed pen blwydd sefydlu Awdurdod Tân Gogledd Cymru. Cynhaliodd "Awdurdod Tân Gogledd Cymru" ei gyfarfod cyntaf ar 17$^{eg}$ Mehefin 1996 yng Nghonwy.

5 Er mwyn nodi'r achlysur, bydd ffotograffydd yn tynnu llun o'r holl Aelodau yn y cyfarfod blynyddol ar 20 Mehefin 2016.

## Argymhelliad

6 Gofynnir i'r Aelodau nodi pen blwydd yr Awdurdod ac y bydd yr achlysur yn cael ei nodi drwy dynnu llun yn y cyfarfod blynyddol ym Mehefin.